Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig o'r enw Adroddiad ar Ddefnyddio Maglau yng Nghymru.

Mae'r ffordd rydym yn trin ein hanifeiliaid yn fesur da o werthoedd cymdeithas ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella safonau lles anifeiliaid yng Nghymru.

Gwnaethom ni gyhoeddi'r Cod ar yr Arfer Orau wrth Ddefnyddio Maglau i Reoli Cadnoid (y 'Cod') ar 25 Medi 2015. Mae'r cod wedi'i anelu at y rheini sy'n defnyddio maglau yng nghefn gwlad Cymru a chafodd ei lunio gyda help pobl sydd â diddordeb mewn maglau a defnyddio maglau. Ei nod yw gwella safonau lles anifeiliaid, rheoli cadnoid yn fwy effeithiol a sicrhau bod cyn lleied o anifeiliaid eraill â phosib yn cael eu dal. Mae fy swyddogion wrthi'n adolygu'r Cod a'i effeithiolrwydd yng Nghymru i sicrhau ei fod yn bodloni'r amcanion.

Fel rhan o'r adolygiad hwnnw, mae swyddogion wedi bod yn gweithio i ddatblygu cynigion ar gyfer maglau a defnyddio maglau, hynny fel rhan o Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy[1]'. Mae'r adran yn yr Ymgynghoriad sy'n ymdrin â bywyd gwyllt yn gofyn a yw'r Cod yn ffordd effeithiol o reoleiddio'r defnydd o faglau. Mae'r Ymgynghoriad yn cynnwys saith cynnig sy'n ymdrin â dyluniad maglau a defnyddio maglau gan ofyn a ddylai Gweinidogion gael rhagor o bwerau i roi Gorchmynion ar gyfer rheoleiddio maglau. Daw'r Ymgynghoriad i ben ar 13 Medi 2017 a hoffwn annog pawb sydd â diddordeb mewn defnyddio maglau i roi tystiolaeth fel rhan o'r ymgynghoriad.

Un o agweddau anoddaf y gwaith hwn yw ymarferoldeb casglu tystiolaeth ynghylch faint o ddefnydd sydd ar faglau yng Nghymru. Byddwn yn gofyn i faglwyr, fel ciperiaid, ffermwyr a rheolwyr plâu i ddod i gyfarfodydd fydd yn cael eu cynnal i gasglu tystiolaeth am ddefnyddio maglau.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig am eu hadroddiad ar ddefnyddio maglau yng Nghymru. Rwy'n neilltuol o falch o weld bod argymhellion y Pwyllgor yn adlewyrchu'n cynlluniau presennol a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Rwy'n ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

Rwy'n ymateb yn fanwl i argymhellion yr adroddiad isod:

---

[1]https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/bwrw-ymlaen-rheoli-adnoddau-naturiol-cymru-yn-gynaliadwy

Argymhelliad 1
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad blynyddol o'r Cod a chyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad hwnnw.

Ymateb: Derbyn

Flwyddyn ar ôl lansio'r Cod, cyfarfu fy swyddogion â rhanddeiliaid i drafod y gwaith sydd wedi'i wneud i roi cyhoeddusrwydd i'r Cod a hefyd i wrando ar y pryderon a godwyd gan grwpiau sy'n erbyn maglu. Bydd fy swyddogion yn dal i gynnal cyfarfodydd bob blwyddyn â rhanddeiliaid lle caiff grwpiau sy'n erbyn maglu, maglwyr a gorfodwyr eu gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ynghylch, ymhlith pethau eraill, cost a nifer y maglau sy'n cydymffurfio â'r Cod a werthir, nifer y bobl sydd wedi cael eu hyfforddi a nifer yr erlyniadau. Cyn y cyfarfod, gofynnir i'r rheini sydd am ddod i gasglu tystiolaeth benodol mewn cysylltiad â'r Cod ac i'w chyflwyno i'm swyddogion.

Caiff adroddiad ar gasgliadau pob un o'r cyfarfodydd blynyddol hyn ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru o fis Medi 2018.

Goblygiadau ariannol - Dim. Telir am unrhyw gostau ychwanegol trwy gyllideb bresennol y rhaglen.

Argymhelliad 2
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Os bydd yr adolygiad blynyddol o'r Cod yn dangos nad yw'n gweithio, yna dylai Llywodraeth Cymru dynhau'r gyfraith ar ddefnyddio maglau yng Nghymru, gan gynnwys cyflwyno cosbau am beidio â chydymffurfio â'r Cod.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Cafodd y Cod ei ddatblygu i godi safonau o ran arferion maglwyr a lles anifeiliaid. Byddai Gweinidogion Cymru'n barod i ystyried camau pellach pe gwelent nad yw'r Cod yn gweithio. Mae Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy, yn gofyn a oes angen diwygio'r rheoliadau ar gyfer defnyddio maglau. Mae'r Ymgynghoriad yn gofyn yn arbennig a ddylai Gweinidogion Cymru gael y pŵer i allu rhoi Gorchymyn i wahardd pob math o fagl (yn ogystal â maglau cloi, sydd eisoes yn anghyfreithlon) a/neu i osod amodau ynghylch defnyddio magl. Byddai pŵer o'r fath yn caniatáu inni weithredu i ddelio â phroblemau sy'n dod i'r amlwg gyda maglau. Er enghraifft, ychwanegu at fanyleb dechnegol magl (fel y 'stop' i gyfyngu ar faint y gall y ddolen gau, angor na ellir ei symud, swifl, weiren neu dyfais all dorri ymaith). Gallai ychwanegu at yr amodau ynghylch defnyddio'r fagl (fel gofynion o ran archwilio, labelu/tagio, gosod, lleoli a hyfforddiant). Gallai ganiatáu inni greu mecanwaith cyfreithiol

hyblyg i'w ymgorffori yn y gyfraith, os gwelir bod angen. Mae'r gofynion presennol wedi'u nodi yn y Cod.

Goblygiadau ariannol - Dim. Telir am unrhyw gostau ychwanegol trwy gyllideb bresennol y rhaglen.

Argymhelliad 3
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Os bydd tystiolaeth yn dangos nad yw'r dull gwirfoddol wedi llwyddo, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru baratoi deddfwriaeth ddrafft. Wrth baratoi'r ddeddfwriaeth honno, dylid ystyried yr opsiynau a ganlyn:
– cyflwyno gofynion tebyg i'r rhai yn yr Alban ynghylch hyfforddiant ac adnabod, ac ymchwilio i system drwyddedu i'w hariannu gan ddefnyddwyr;
– ai perchennog y tir lle y canfyddir maglau a ddylai gael ei erlyn? Gallai hyn leihau problemau o ran cadarnhau pwy sy'n berchen ar faglau ac o ran sicrhau erlyniadau llwyddiannus.

Ymateb: Derbyn

Er bod Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r Cod i wella'r defnydd o faglau wrth reoli cadnoid, mae swyddogion yn ystyried a oes angen rheoleiddio pellach ar y mesurau presennol yn y dyfodol ar gyfer rheoli'r defnydd o faglau i wella safonau lles anifeiliaid.

Mae Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, 'Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy' yn gofyn beth yw'r farn ynghylch datblygu rheoliadau newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. Mae'r Ymgynghoriad yn cynnwys cynigion fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru reoleiddio'r math o fagl a ddefnyddir a rhoi'r hyblygrwydd i allu ymgorffori unrhyw welliant neu ddatblygiad yn nyluniad maglau yn y gyfraith. Mae'r Ymgynghoriad yn cynnwys saith cynnig sy'n ymwneud â maglau a defnyddio maglau. Bydd yr Ymgynghoriad yn cau ar 13 Medi 2017.

Caiff yr opsiynau a restrir yn Argymhelliad 3 eu hystyried gyda'r dystiolaeth arall a gyflwynir gan y rhanddeiliad ac ymatebion i'r Ymgynghoriad.

Goblygiadau ariannol - Dim. Telir am unrhyw gostau ychwanegol trwy gyllideb bresennol y rhaglen.

Argymhelliad 4
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Os dangosir nad yw'r mesurau gorfodi diwygiedig a restrir yn Argymhelliad 3 yn lleihau dioddefaint yn y gwaith o reoli plâu drwy ddefnyddio maglau nac yn ei wneud yn fwy effeithlon, yna dylai Llywodraeth Cymru ystyried deddfu i wahardd y defnydd o faglau.

Ymateb - Derbyn

Mae'r Ymgynghoriad y cyfeirir ato uchod yn cynnwys cynnig bod Gweinidogion Cymru yn derbyn y pŵer i roi Gorchymyn i wahardd unrhyw fath o fagl (yn ogystal â maglau cloi, sydd eisoes yn anghyfreithlon) a/neu i osod amodau ynghylch defnyddio magl. Gallai'r Gorchymyn hwnnw fod yn fecanwaith cyfreithiol i wahardd maglau'n llwyr.

Goblygiadau ariannol - Dim. Telir am unrhyw gostau ychwanegol trwy gyllideb bresennol y rhaglen.

Argymhelliad 5
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad o'r bylchau o ran y data sydd ar gael a chymryd camau brys i gael y wybodaeth sydd ei hangen i asesu effeithiolrwydd ei pholisi.

Ymateb: Derbyn

Mae fy swyddogion eisoes wrthi'n cofnodi'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch y defnydd o faglau yng Nghymru. Ychydig o ddata sydd ac nid oes proses ar gyfer monitro maglau. Fodd bynnag, rydym wrthi'n trafod â rhanddeiliaid ynghylch casglu mwy o wybodaeth.

Goblygiadau ariannol - Dim. Telir am unrhyw gostau ychwanegol trwy gyllideb bresennol y rhaglen.

Argymhelliad 6
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad erbyn diwedd mis Medi 2018, ac yn flynyddol wedi hynny, ar y graddau y defnyddir maglau yng Nghymru. Fel rhan o'r broses adrodd hon, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu system ar gyfer pennu nifer yr anifeiliaid a pha rywogaethau sy'n cael eu dal mewn maglau**.**

Ymateb: Derbyn

Fel rhan o gyfarfod blynyddol y rhanddeiliaid, cesglir tystiolaeth ynghylch y graddau y defnyddir maglau a sut y defnyddir maglau yng Nghymru. Er nad oes trefn fonitro, bydd swyddogion yn ystyried gyda rhanddeiliaid ymarferoldeb casglu'r wybodaeth. Fel y dywedwyd uchod, caiff adroddiad ar gasgliadau pob un o'r cyfarfodydd blynyddol ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru o fis Medi 2018.

Goblygiadau ariannol - Dim. Telir am unrhyw gostau ychwanegol trwy gyllideb bresennol y rhaglen.

Argymhelliad 7
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylid gwahardd y defnydd o faglau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Cod ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn

Gofynnwyd imi yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Mehefin 2017 a fyddwn yn barod i hyrwyddo defnyddio dim ond y maglau sy'n cydymffurfio â'r Cod ar dir Llywodraeth Cymru[2]. Cadarnheais na fyddwn yn cefnogi unrhyw faglau ond y rhai sy'n cydymffurfio â'r Cod.

Goblygiadau ariannol - Dim. Telir am unrhyw gostau ychwanegol trwy gyllideb bresennol y rhaglen.

Argymhelliad 8
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Cod ar yr arfer orau adrodd ar:
– gamau gorfodi mewn perthynas â'r Cod a nifer yr erlyniadau llwyddiannus, os o gwbl;
- cost ac argaeledd maglau sy'n cydymffurfio â'r Cod; a
– nifer y bobl sy'n cael eu hyfforddi i ddefnyddio maglau yn unol â'r Cod a'r dulliau a ddefnyddir i asesu effeithiolrwydd yr hyfforddiant hwnnw.

Ymateb: Derbyn

Bydd cyfarfodydd blynyddol y rhanddeiliad yn ceisio casglu tystiolaeth am yr holl agweddau a restrir.

Bydd Grŵp Gorfodi Troseddau Bywyd Gwyllt a'r Amgylchedd Cymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron ynghlwm wrth y broses i ddeall yn well beth fydd gorfodi'r ddeddfwriaeth yn ei olygu.

Mae fy swyddogion wrthi'n gweithio â gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr i geisio sicrhau bod mwy o faglau sy'n cydymffurfio â'r Cod ar gael mewn siopau yng Nghymru. Rwyf wedi ysgrifennu at weithgynhyrchwyr a manwerthwyr ledled Cymru i bwyso arnyn nhw i werthu/stocio dim ond y maglau sy'n cydymffurfio â'r Cod.

Mae Cynghorwyr Bywyd Gwyllt Llywodraeth Cymru a staff o Swyddfa Prif Swyddog Milfeddygol Cymru wedi bod ar gyrsiau hyfforddi defnyddio maglau

[2] http://www.assembly.wales/en/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=4301&assembly=5&c=Record%20of%20Proceedings&startDt=28/06/2017&endDt=28/06/2017#483700

yng Nghymru. Roedd yr hyfforddiant yn gynhwysfawr ac yn golygu dysgu popeth oedd ei angen i rywun allu gweithio o fewn amodau'r Cod.

Goblygiadau ariannol - Dim. Telir am unrhyw gostau ychwanegol trwy gyllideb bresennol y rhaglen.

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig